Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol y Foryd
## Rhodfa'r Morfa
## Y Foryd
## Conwy
## LL18 5LE

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol y Foryd

Mae Ysgol Fabanod y Foryd ym Mae Cinmel yng Nghonwy. Mae 225 o ddisgyblion rhwng tair a saith oed yn yr ysgol, gan gynnwys 50 o ddisgyblion rhan-amser, yn y dosbarth meithrin. Mae wyth dosbarth yn yr ysgol.

Cyfran gyfartalog y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 29%. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 35% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Dechreuodd y pennaeth dros dro yn ei swydd ym mis Medi 2017 o ganlyniad i secondiad y pennaeth i weithio i'r consortiwm addysg lleol. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da, a chynnydd da iawn, yn aml, o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd erbyn diwedd Blwyddyn 2, weithiau o fannau cychwyn isel.

Mae agwedd bron pob un o'r disgyblion tuag at ddysgu yn eithriadol o dda. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn uchel. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol, ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd.

Mae ansawdd yr addysgu yn cefnogi lefelau uchel iawn o ymgysylltiad disgyblion, a chynnydd cryf iawn mewn dysgu. Mae athrawon a chynorthwywyr yn gweithio'n hynod effeithiol fel tîm, ac yn creu amgylchedd dysgu brwdfrydig ym mhob dosbarth. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o bob disgybl.

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir yn rhagorol, ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol cryf ar gyfer yr ysgol, gyda ffocws clir ar ddiwallu anghenion amrywiol a lles pob disgybl. Mae gwaith tîm yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion mwy abl

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag asesu ar gyfer dysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion islaw’r rhai sy’n ddisgwyliedig ar gyfer disgyblion o’u hoedran. Fodd bynnag, mae bron pob yn o’r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da, a chynnydd da iawn, yn aml, o ran datblygu’r medrau hyn erbyn diwedd Blwyddyn 2. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni’n dda iawn yn unol â’u hoedran a’u gallu.

Mae bron pob un o’r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau llafaredd yn eithriadol o dda. Maent yn gwrando’n eithriadol o ofalus ar ei gilydd, ac ar oedolion. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu llawer o hyder fel siaradwyr sy’n mynegi eu hunain yn glir iawn. Mae disgyblion hŷn, er enghraifft, yn siarad yn frwdfrydig ac yn defnyddio geirfa eang wrth siarad am eu testun, sef y blaned rewllyd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n dda. Mae disgyblion iau yn cyfleu ystyr yn hyderus trwy eiriau ac ymadroddion syml. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio brawddegau syml i gofnodi eu syniadau’n dda, ac yn cynnwys atalnodi sylfaenol fel priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu llythyrau at dylwythen deg y dannedd. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu i safon uchel, gan gynhyrchu eu gwaith yn ddestlus ac yn defnyddio dyfynodau a pharagraffau’n gywir. Defnyddiant eirfa ddychmygus pan fyddant, er enghraifft, yn ysgrifennu stori am y corrach drwg. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl bob amser yn datblygu eu hysgrifennu estynedig cystal ag y gallent.

Ar draws yr ysgol, mae bron yr holl ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus. Mae disgyblion iau yn siarad yn frwdfrydig am y llyfrau yn y dosbarth y maent yn eu mwynhau. Maent yn nodi’r teitl yn gywir ac yn trin a thrafod llyfrau yn dda fel darllenydd. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn dechrau darllen â hyder a mynegiant. Defnyddiant ystod o strategaethau i ddatrys geiriau nad ydynt yn gyfarwydd â nhw, gan gynnwys defnyddio seiniau llythrennau yn effeithiol. Mae llawer ohonynt yn siarad yn wybodus am sut i ddefnyddio llyfrau i ymchwilio a dod o hyd i wybodaeth. Mae disgyblion mwy abl yn darllen yn rhugl, gan ddefnyddio atalnodi’n dda i ddarllen â mynegiant. Maent yn galw i gof yn fanwl yr hyn y maent wedi’i ddarllen, ac yn rhagweld sut bydd y stori’n gorffen. Mae bron pob un o’r disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn effeithiol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn Gymraeg. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac yn dangos dealltwriaeth dda o’r Gymraeg a ddefnyddir gan staff. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy’r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o destunau Cymraeg syml sy’n gysylltiedig â’u gwaith am anifeiliaid yn yr Arctig, ac maent yn ateb cwestiynau sylfaenol amdanynt gyda chywirdeb datblygol.

O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrif, adio a thynnu rhifau, ac yn rhoi rhifau yn eu trefn, yn gywir wrth ddatrys problemau hyd at 10 gwrthrych. Maent yn darllen ac yn ysgrifennu'r rhifau yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan bron bob disgybl afael cadarn o fedrau rhifedd, ac yn eu defnyddio'n effeithiol i ddatrys problemau bob dydd. Defnyddiant strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi yn hyderus wrth ddatrys problemau llafar ac ysgrifenedig, er enghraifft wrth gyfrifo amser a chost eitemau. Defnyddiant offer ac unedau mesur safonol yn gywir wrth bwyso anifail anwes yr ysgol, ac maent yn cofnodi eu canlyniadau'n gywir mewn rhestrau, tablau, diagramau a graffiau bloc syml. Maent yn rhoi rhesymau credadwy am y newidiadau mewn pwysau dros gyfnod, ac yn esbonio'r dull y maent wedi'i ddefnyddio. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu medrau'n llwyddiannus iawn ar draws meysydd dysgu eraill, er enghraifft wrth gynnal arolwg o'u hoff fwyd i lunio graffiau bar a llinell o ansawdd uchel.

Mae medrau technoleg a gwybodaeth (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Yn y meithrin, defnyddiant gyfrifiaduron llechen yn hyderus i elwa ar amrywiaeth o gymwysiadau i'w helpu i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn agor ystod eang o gymwysiadau, yn creu ffeiliau ac yn adalw eu gwaith yn hyderus. Maent yn defnyddio camera yn hyderus i recordio eu gwaith. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhaglennu tegan i'w symud mewn cyfeiriad penodol, tra'n dilyn llwybr cylch oes pili-pala ar yr un pryd. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn defnyddio technoleg sgrin yn effeithiol i gynhyrchu eu fideos o safon eu hunain, gan amlygu rhywogaethau sydd mewn perygl yn yr Arctig.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau eithriadol o dda at ddysgu. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn uchel. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais, yn ystyriol ac yn uniaethu â'i gilydd yn dda. Maent yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu ffrindiau, er enghraifft trwy eu helpu yn ystod gwersi, amser cinio ac adegau eraill, fel amser chwarae. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gallu dweud ac esbonio beth yw gwerthoedd yr ysgol, ac yn eu gwireddu'n gydwybodol. Mae hon yn nodwedd ragorol o fywyd yr ysgol, ac yn cyfrannu'n sylweddol at yr amgylchedd dysgu effeithiol iawn sy'n bodoli yno.

Mae bron pob disgybl yn eithriadol o gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Maent yn falch o'u hysgol. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith, ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau am gyfnodau estynedig. Mae bron pob disgybl yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddysgu ei hun, ac yn dangos lefel uchel o hyder ac aeddfedrwydd wrth weithio. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn hyderus i ddewis eu lefel her eu hunain cyn dechrau eu gwaith. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gallu disgyblion i wella eu dysgu eu hunain yn agwedd gref iawn ar eu gwaith.

Mae disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd niferus i fynegi barn a dylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol, y cyngor eco, arweinwyr digidol a'r Criw Cymraeg yn frwdfrydig iawn ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion eraill yng nghymuned yr ysgol. Mae'r cyngor eco, er enghraifft, wedi ysgrifennu at eu cyflenwr llaeth yn esbonio eu pryder am nifer y cartonau llaeth na ellir eu hailgylchu sy'n cael eu gwaredu. Maent wedi gofyn bod y llaeth yn cael ei ddanfon mewn cynwysyddion mwy y gellir eu hailgylchu. Mae'r

cyflenwr wedi cytuno i'r cais hwn. Mae'r cyngor ysgol yn disgrifio'r modd y maent wedi dylanwadu ar flaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol trwy nodi'r angen i godi ymwybyddiaeth rhieni am beth i'w ddysgu, a sut, yn enwedig iaith.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn sylweddoli eu bod yn cael cymorth o ansawdd uchel gan oedolion yn yr ysgol. Maent yn hyderus i droi at unrhyw aelod o staff os bydd ganddynt bryderon. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach, a chadw'n heini. Maent yn ymwybodol o beryglon chwilio ar y rhyngrwyd a'r angen i wneud dewisiadau iach wrth fwyta ac yfed.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Caiff cyfuniad hynod lwyddiannus o strategaethau addysgu effaith eithriadol o gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion.

Mae ansawdd yr addysgu yn cefnogi lefelau uchel iawn o ymgysylltiad disgyblion, a chynnydd cryf iawn mewn dysgu. Yn yr arfer orau, mae'r addysgu yn egnïol ac yn sbarduno dychymyg bron pob disgybl. Mae athrawon a chynorthwywyr yn gweithio'n hynod effeithiol fel tîm. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn o bob plentyn, ac mae ansawdd eu cyflwyniadau a'u cwestiynau yn heriol a phwrpasol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob disgybl yn ymroi'n llawn i'w dasgau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig, ac yn dangos lefel uchel o gymhelliant. Ceir amgylchedd dysgu brwdfrydig ym mhob dosbarth, a pherthynas weithgar ym mhob gwers.

Mae'r defnydd effeithiol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cefnogi cynnydd a datblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol. Caiff disgyblion adborth adeiladol er mwyn iddynt ddeall beth mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gynllunio ar y cyd ag athrawon, myfyrio ar eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion, a chyfrannu'n effeithiol wrth ddewis eu lefel her eu hunain. Mae'r arfer hon yn eithriadol o gryf ym mhob dosbarth.

Mae athrawon yn cynllunio'n arbennig o dda i fodloni anghenion pob disgybl. Mae hon yn nodwedd gref iawn. Mae athrawon yn ystyried syniadau disgyblion fel rhan o'r broses gynllunio. Defnyddiant yr awgrymiadau hyn i greu testunau diddorol a phrofiadau dysgu dychmygus. Ar ddechrau pob testun, mae disgyblion yn datgan yr hyn y maent yn ei wybod eisoes, a'r hyn yr hoffent ei ddysgu, ac ar ddiwedd y cyfnod astudio, maent yn esbonio'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Mae hyn yn ennyn eu diddordeb yn dda, ac yn datblygu eu medrau a'u chwilfrydedd tuag at ddysgu yn fedrus, ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith yn eithriadol o lwyddiannus.

Mae cynllunio gofalus a thrylwyr athrawon yn sicrhau bod tasgau yn adeiladu'n llwyddiannus ar rai blaenorol, a bod dilyniant a pharhad clir ym medrau dysgu annibynnol disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae tasgau'n herio disgyblion i weithio'n annibynnol yn y meysydd dysgu yn dda iawn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac aeddfed iawn.

Mae'r ffordd lwyddiannus y mae'r ysgol yn defnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn ei chynlluniau yn gryfder arbennig ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ym mhob dosbarth ac yn eu defnyddio'n bwrpasol mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y

cwricwlwm. Mae egwyddorion y cwricwlwm 'Dyfodol Llwyddiannus' newydd yn amlwg yng ngwaith yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn llwyddiannus o ran sicrhau parhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion. Mae staff yn creu ethos Cymreig eithriadol o gadarnhaol, ac yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol. Mae hyn yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd bron pob un o'r disgyblion. Trwy waith trawsgwricwlaidd, ymweliadau a chyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau, caiff disgyblion brofiadau diddorol i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir yn rhagorol, ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau a gweithdrefnau hynod effeithiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn dechrau ag ymweliadau cartref cyn i blentyn ddechrau yn yr ysgol. Mae'r wybodaeth a gesglir yn galluogi staff i gynllunio a darparu cymorth cynhwysfawr i fynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn trwy ddarparu gwaith ysgogol, trwy weithgareddau ystafell ddosbarth a gweithredoedd addoli ar y cyd. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bum gwerth craidd yr ysgol. Dangosir hyn yn glir yn y ffordd dyner y mae'r ysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion er mwyn meithrin ymddygiad da. Mae ymddygiad cyfeillgar disgyblion tuag at ei gilydd yn dystiolaeth o lwyddiant y cymorth gofalgar hwn.

Mae grwpiau anogaeth trefnus yn darparu sesiynau effeithiol a sensitif i ddisgyblion sy'n agored i niwed drafod eu teimladau ar adegau anodd. Mae hyn yn gwella eu hyder ac yn sicrhau eu bod yn barod i ddysgu, ac yn eu cynorthwyo i fod yn ddysgwyr llwyddiannus. Mae gan bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg clir, sy'n cynnwys targedau penodol, mesuradwy a heriol. Caiff disgyblion gymorth gwerthfawr trwy ystod helaeth o raglenni ymyrraeth. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda rhieni ac asiantaethau cymorth y tu allan i'r ysgol i lunio'r cynlluniau hyn, a'u monitro. Mae hyn yn sicrhau bod y ddarpariaeth ofalus ac addas ar gyfer disgyblion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu cynnydd.

Mae'r ysgol yn darparu nifer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithgar mewn gwneud penderfyniadau, ac ymgymryd â rolau arwain. Mae'n rhoi pwys mawr ar ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion cyfrifol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod arloesol o gyfleoedd i rieni ddod i wybod am y gwaith y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol. Mae staff yn trefnu sesiynau lle mae rhieni'n gweithio'n rheolaidd ochr yn ochr â'u plant ar weithgareddau fel llythrennedd a rhifedd trwy chwarae. O ganlyniad i hyn, mae llawer o rieni wedi datblygu dealltwriaeth well o sut i baratoi eu plentyn ar gyfer yr ysgol, a sut i gefnogi eu dysgu gartref. Mae mentrau eraill fel 'Bwyta'n Dda a Gwario Llai' ('Eat Well and Spend Less') yn llwyddiannus iawn o ran addysgu rhieni am agweddau ar fwyta'n iach.

Ceir trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i aros yn ddiogel. Mae ystod dda o ymweliadau a phobl sy'n ymweld â'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau fel defnyddio'r traeth lleol a'r ganolfan chwaraeon leol yn cynnig cyfleoedd iddynt ddatblygu eu ffitrwydd yn rheolaidd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth gref iawn ar gyfer yr ysgol, ac fe gaiff gefnogaeth gan uwch dîm arweinyddiaeth hynod effeithiol. Maent yn darparu cyfeiriad strategol cryf ar gyfer yr ysgol, gyda ffocws clir ar fodloni anghenion amrywiol disgyblion. Mae'r arweinyddiaeth hynod effeithiol hon yn sicrhau safonau uchel mewn dysgu a lles ar draws yr ysgol yn gyson. Mae gwaith tîm yn gryfder yn yr ysgol, ac mae gan bob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu rolau arwain dynodedig y maent yn ymgymryd â nhw yn ddiwyd.

Caiff pum gwerth y Foryd, sef 'dwylo tyner, geiriau caredig, gwrando, dangos parch at bawb, a gwneud ein gorau', eu harddangos yn amlwg yn yr ysgol. Mae'r gwerthoedd yn ategu bywyd bob dydd yr ysgol mewn modd eithriadol o dda. Mae disgyblion yn siarad yn huawdl am y gwerthoedd, ac yn esbonio'n frwdfrydig sut mae'r gwerthoedd yn dylanwadu ar eu bywydau. Mae disgyblion yn cyfeirio at y gwerthoedd yn achlysurol yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft wrth ganmol eu cyfoedion am ddefnyddio dwylo caredig.

Mae'r ysgol yn hynod ragweithiol wrth gydweithio ag ysgolion eraill i rannu a datblygu arfer dda. Ar hyn o bryd, mae staff yn cydweithio â 12 ysgol arall fel rhan o fenter ranbarthol. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil peilot dan arweiniad prifysgol leol, gan ganolbwyntio ar barodrwydd disgyblion i ddysgu, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr. Ceir cymorth eithriadol o dda ar gyfer datblygiad proffesiynol cynorthwywyr addysgu. Maent yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael, ac yn gwella eu cymwysterau'n sylweddol.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol. Mae llawer o lywodraethwyr yn ymgymryd â gweithgareddau monitro sy'n eu galluogi i gymryd rhan yn llawn mewn trafodaethau, yn enwedig am les disgyblion. Mae athrawon neu grwpiau bach o gynorthwywyr addysgu yn ymuno â chyfarfodydd y corff llywodraethol yn rheolaidd, ac yn rhannu agweddau ar eu gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol, a'r meysydd i'w datblygu, gan eu galluogi i herio'r ysgol yn llwyddiannus i wella safonau a sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

Bu'r broses cynllunio ar gyfer gwella yn hynod effeithiol o ran cynnal y safonau uchel iawn dros gyfnod. Mae monitro yn cynnwys trafodaeth fanwl â disgyblion am eu gwaith, ac mae wedi nodi diffyg dealltwriaeth o agweddau ar farcio gan ychydig o ddisgyblion, er enghraifft. Mae'r arfer o gynnwys disgyblion wrth sicrhau gwelliant yn rhagorol. Mae'r cyngor ysgol yn penderfynu sut bydd y tair prif flaenoriaeth yn effeithio ar eu dysgu, ac fe gaiff eu safbwyntiau eu harddangos yn amlwg yng nghyntedd yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor yn rhannu eu safbwyntiau gyda

disgyblion eraill yn y dosbarth a'r gwasanaeth.  O ganlyniad, mae disgyblion yn gwbl ymwybodol o flaenoriaethau'r ysgol, ac yn eu deall o safbwynt disgybl.

Mae arweinwyr meysydd dysgu yn adrodd yn fanwl ar gynnydd yn eu maes cyfrifoldeb, gan ddarparu gwybodaeth werthfawr i gefnogi gwelliant yr ysgol.  Mae deilliannau monitro yn llywio gwelliant parhaus yr ysgol yn glir.  Mae effaith gadarnhaol y gwaith gwella yn amlwg mewn llawer o agweddau ar fywyd yr ysgol, ac yn cynnwys, er enghraifft, y safonau eithriadol o uchel y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn mathemateg, a'r cymorth o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion mewn sesiynau grwpiau bach.

Mae uwch arweinwyr yn gwneud defnydd hynod effeithiol o arbenigedd a phrofiad staff.  Mae hyn yn cynnwys y defnydd eithriadol o dda o gryfderau staff o ran dyrannu rolau cyfrifoldeb.  Mae staff yn llwyddo i sicrhau cyllid grant, yn arbennig i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol.  Er enghraifft, mae grant i gefnogi datblygiad creadigol wedi cael effaith sylweddol ar hyder staff wrth gyflwyno dawns, drama a cherddoriaeth. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau cymorth ar gyfer yr holl ddisgyblion perthnasol, er enghraifft i wella eu medrau darllen.  Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol, ac yn adolygu gwariant yn fanwl.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2019